HAWDD EI DDARLLEN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth Hawdd ei Darllen / Hygyrch i Rieni ag Anableddau Dysgu



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Brifysgol De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

**Marwth 2023**



Mae'r llyfryn hwn yn dweud ble gallwch chi gael gwybodaeth i'ch helpu chi fel rhiant.

Mae gwahanol adrannau yn y llyfryn er mwyn eich helpu chi i gael yr wybodaeth rydych chi eisiau.



Mae adrannau am fod yn feichiog ac am ofalu am eich plentyn.




Hefyd, mae adrannau ar gyfer gwybodaeth i'ch helpu os ydy'r gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd rhan ac os ydych chi wedi cael gwybod bod angen i chi fynd i'r llys.

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
[www.photosymbols.com/](http://www.photosymbols.com/)

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47204, ISBN digidol 978-1-80535-894-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg






Mae llawer o'r wybodaeth ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Mae'r dolenni gwe wedi'u cynnwys er mwyn i chi gael yr wybodaeth a'i darllen.

Mae rhai llyfrau a thaflenni yn costio arian.





Os ydy llyfr neu daflen yn costio arian, bydd yr arwydd hwn wrth ei ymyl.




Efallai y byddwch chi eisiau gofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol neu nyrs os oes ganddyn nhw gopi i chi ei ddarllen.

# 1. Gwybodaeth am fod yn feichiog




**Eich hawliau pan fyddwch chi'n feichiog.**

[Adnoddau - Anabledd Dysgu Cymru (ldw.org.uk)]

Mae hwn yn sôn am eich hawliau i wasanaethau, cyngor, a chefnogaeth pan fyddwch chi'n feichiog.




**Eich hawliau pan fydd eich babi'n cael ei eni**

[Adnoddau - Anabledd Dysgu Cymru (ldw.org.uk)]

Mae hwn yn dweud beth ydy eich hawliau i ofal iechyd a chefnogaeth pan fyddwch chi'n rhoi genedigaeth.



**Ready, steady baby hawdd ei ddarllen!**





[Ready Steady Baby! Hawdd ei Ddarllen: Canllawiau i weithwyr iechyd proffesiynol - Cyhoeddiadau - Public Health Scotland]




Dyma ddolen i gyfres o daflenni sy'n sôn am eich iechyd pan fyddwch chi'n feichiog, yn paratoi i roi genedigaeth, ac yn paratoi i fod yn rhiant.


**Fy meichiogrwydd i, fy newis i**



[https://www.changepeople.org/shop/products](https://www.changepeople.org/shop/products)

Mae’r llyfr hwn wedi cael ei gyhoeddi gan CHANGE. Mae’n sôn am bob agwedd ar feichiogrwydd, o’r adeg pan gewch wybod eich bod yn feichiog i ddyddiau cyntaf bywyd eich babi.

**Cael babi**



Mae’r llyfr ar gael drwy [Beyond Words (booksbeyondwords.co.uk)](booksbeyondwords.co.uk)

Mae’r llyfr yn sôn am feichiogrwydd a rhoi genedigaeth.




## 2. Gwybodaeth am fod yn rhiant a gofalu am eich plant

**Gwybodaeth am fwydo ar y fron: ar gyfer mamau newydd yng Ngogledd Cymru.**




[Llyfrynnau bwydo ar y fron a gwybodaeth ddefnyddiol arall - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)](gig.cymru)

Llyfryn hawdd ei ddarllen am fwydo ar y fron.





**Gwybodaeth am fod yn dad, gan dadau, ar gyfer tadau**

[Information for parents with learning difficulties | School for Policy Studies | University of Bristol]()

Dyma lyfryn hawdd ei ddarllen am fod yn dad. Cafodd ei ysgrifennu gan dadau sydd ag anableddau dysgu.

## Chi a'ch babi 0 – 1





https://www.changepeople.org/shop/products

Mae'r llyfr hwn yn dweud sut i ofalu am eich plentyn nes mae'n 1 flwydd oed.

Mae'n sôn am faterion fel beth mae angen ei fwyta, sut i'w gadw'n iach ac yn ddiogel, mynd â'ch plentyn i gael brechiadau, a sefydlu trefn a phatrwm.



## Chi a'ch plentyn 1 – 5




https://www.changepeople.org/shop/products

Mae'r llyfr yn dweud sut i ofalu am eich plentyn pan fydd rhwng 1 a 5 oed.

Mae'n sôn am faterion fel sut i'w gadw'n ddiogel, sut i ddysgu eich plentyn i ddefnyddio'r toiled, amser gwely a dysgu drwy chwarae.

## Tadau ag anableddau dysgu




Tadau ag anableddau dysgu - YouTube

Mae'r fideo hwn ar YouTube yn dangos tadau ag anableddau dysgu yn siarad am fod yn dad.

## Bod yn fam ag anableddau dysgu




Bod yn fam ag anabledd dysgu - YouTube

Mae'r fideo hwn ar YouTube yn dangos mamau ag anableddau dysgu yn siarad am fod yn fam.




## Bod yn rhiant ag anawsterau dysgu




Bod yn rhiant - rhieni ag anawsterau dysgu - YouTube

Mae'r fideo hwn ar YouTube yn dangos rhieni ag anableddau dysgu yn siarad am fod yn rhiant

# 3. Gwybodaeth am bolisïau'r gwasanaethau cymdeithasol


Meanings of different

Social Services meetings

- Your Advocate will talk to you before a meeting to find out what you want to say, in case you don't want to talk yourself.
- Your Advocate can talk to you after the meeting about what's gone on.

What is a Strategy Meeting?

A Strategy Meeting is for Social Workers and other professionals to plan what they are going to do next about a case. Parents and advocates are not invited.

**Ystyr gwahanol gyfarfodydd y gwasanaethau cymdeithasol**

Information for parents with learning difficulties | School for Policy Studies | University of Bristol

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am wahanol gyfarfodydd y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd strategaeth, cynadleddau achos ac adolygiadau.




**Beth ydy Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus?**

(Link to be added once document and location are finalised)

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Mae'n dweud beth i'w ddisgwyl a pha gefnogaeth y gallai fod angen.


## Eich hawliau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol




Adnoddau - Anabledd Dysgu Cymru (ldw.org.uk)

Mae'r llyfryn hwn yn sôn am eich hawliau i gael gwybodaeth, mynd i gyfarfodydd, cefnogaeth a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Eich hawliau pan fydd eich plentyn yn cael ei gymryd i ffwrdd




Adnoddau - Anabledd Dysgu Cymru (ldw.org.uk)

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio eich hawliau os bydd eich plentyn yn cael ei roi mewn gofal, yn cael ei faethu, gyda gwarcheidwad arbennig neu'n cael ei fabwysiadu.



# 4. Gwybodaeth am fynd i'r llys


## Sut i ddefnyddio cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr




Information for parents with learning difficulties | School for Policy Studies | University of Bristol

Mae'r daflen hon yn dweud beth mae cyfreithwyr yn ei wneud a sut gallwch chi gael cyfreithiwr.


## Y cyfreithiwr swyddogol a sut mae'n gallu eich helpu chi




Information for parents with learning difficulties | School for Policy Studies | University of Bristol

Mae'r llyfryn hwn yn dweud beth ydy rôl y cyfreithiwr swyddogol.

**Llyfryn i Rieni gan Voiceability**




[Adnoddau - Anabledd Dysgu Cymru (ldw.org.uk)]

Mae'r llyfryn hwn yn sôn am achosion llys am ofal plant, y broses amddiffyn plant, beth all ddigwydd pan fyddwch yn mynd i'r llys, a beth ydy'r broses fabwysiadu.



**Y Llys a'ch plentyn: pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn cymryd rhan**




https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/sps/documents/wtpn/Public_Law_booklet-%20English.pdf

Mae'r daflen hon yn dweud beth sy'n digwydd yn y llys.




Mae'n dweud hefyd beth gall y llys ei benderfynu